


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mawrth 8 2022

18.30 – 19.00

Anerchiad gan Garem Jackson, Pennaeth Addysg Gwynedd a'r Cynghorydd Cemlyn Williams

Croesawyd Garem Jackson, Pennaeth Addysg Gwynedd a'r Cynghorydd Cemlyn Williams i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng Llywelyn Rhys a rhoddwyd y llawr iddynt roi eu cyflwyniad a chyfle ar y diwedd i'r Cynghorwyr ofyn cwestiynau.

Diolchodd y Cynghorydd Cemlyn Williams am y gwahoddiad i ymuno yn y cyfarfod a dechreuodd drwy egluro cefndir y ddarpariaeth drochi yn y Canolfannau Iaith. Mae'r Cynghorydd Cemlyn Williams wedi bod yn Bennaeth Portffolio Addysg ers 3 blynedd a phan ddechreuodd yn ei swydd roedd y Canolfannau Iaith o dan fygythiad oherwydd fod y sefyllfa gyllidol yn dynn. Roedd yn awyddus i edrych ar pa opsiynau oedd ar gael i arbed cau'r Canolfannau. Mae'n fwy optimistaidd bellach am fod y sefyllfa ariannol wedi gwella oherwydd fod Garem Jackson wedi bod mor llwyddiannus yn cael grantiau i ail-edrych ar y ddarpariaeth. Dywedodd nad oedd y Canolfannau wedi cael eu gwerthuso ers eu sefydlu yn yr 80au a'u bod bellach yn rhan o'r cylch arolygu gan Estyn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn dros £1 miliwn i agor mwy o Ganolfannau Iaith yn ardaloedd Bangor a Tywyn – nid i'w cau nhw – i ymateb i'r heriau ieithyddol yn yr ardaloedd hynny. Maent wedi ail-edrych ar sefyllfa'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Eifionydd a gweld angen am fuddsoddiad yno er mwyn dod â'r safle i safon darpariaeth addysg yn yr 21ain ganrif.

Roedd wedi derbyn y newyddion yn ddiweddar fod Garem Jackson a'i dîm wedi denu buddsoddiad o £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru i 2 brosiect; un i wella amgylchedd addysg yn y canolfannau eraill o fewn y sir - Llanybi, Maesincla a Dolgellau a'r llall yn grant o £1.8 miliwn yn benodol i edrych ar y cymunedau sy'n ieithyddol arwyddocaol lle mae dros 70% yn siaradwyr Cymraeg ond lle mae twf yn y nifer o ymfudwyr-yn benodol Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog. Mae hyn i gyd yn newyddion da i'r dyfodol ac mae rhaglenni eraill ar y gweill i wella'r defnydd o'r dechnoleg newydd.

O ystyried sefyllfa'r ddarpariaeth 3 blynedd yn ôl, ar ôl buddsoddiad o dros £3 miliwn, mae'r gwasanaeth yn gallu cynnig darpariaeth sy'n ymateb i ofynion yr 21ain ganrif. Mae pob Canolfan Iaith yn y gorffennol wedi gweithredu fel uned annibynnol ond erbyn hyn rhaid eu hystyried fel grŵp o ganolfannau ar draws y sir.

Trosglwyddwyd yr awennau i Garem Jackson ac ychwanegodd yntau fwy o fanylion ynglyn â'r Grant Cyfalaf y Gymraeg o £1.1 miliwn a gaiff ei ddefnyddio i ariannu 2 ganolfan newydd ym Mangor a Tywyn ac i wella'r adnoddau yn y safle presennol ar dir Ysgol Eifionydd. Bydd y 3 canolfan yma ar gyfer dysgwyr rhwng BI 5 a BI 9 oherwydd mae ymchwil wedi dangos fod yr ystod oed yma yn ymateb yn well i ddysgu iaith. Mae'r ystod oed yma yn pontio'r Cynradd a'r Uwchradd a bydd dysgwyr o uned iaith Cefn Coch felly yn mynychu unai Canolfan Ysgol Eifionydd, Dolgellau neu Tywyn. Oherwydd bod mwy o ganolfannau yna ni fydd yn rhaid i'r dysgwyr deithio cyn belled. Bydd pob canolfan yn gallu manteisio ar y buddsoddiad sylweddol yma i foderneiddio ac i ddiweddarau'r ddarpariaeth addysgol a bydd safle Dolgellau yn gallu darparu ar gyfer 16 o ddisgyblion fel yn y

canolfannau eraill. Cafwyd hefyd grant o £154k o arian Refeniw Addysg Drochi gan Lywodraeth Cymru sydd wedi ei glustnodi ar gyfer 2 brosiect :-

1. ar y cyd ag athrawon yr unedau iaith, llunio cyfres o weminarau ar addysg drochi ar gyfer athrawon yn y prif lif i atgyfnerthu gwaith y Canolfannau Iaith i gychwyn yn nhyrnor yr Haf, 2022

2. maent wedi darganfod bod angen cyfoesi'r ddarpariaeth a'i wneud yn fwy diddorol i blant ac felly wedi comisiynu cwmni i greu byd rhithwir (virtual) yn Gymraeg er mwyn i'r dysgwyr cael profiad drwy wisgo sbectol neu benwisg pwrpasol er mwyn camu i fewn i'r byd Cymraeg – mewn siop, canolfan hamdden er enghraifft . Maent yn gallu cyfathrebu yn rhithwir er mwyn defnyddio eu sgiliau yn y Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn draddodiadol wedi tueddu bod yn ynysig ond mae'r gyfundrefn drochi yn creu un ysgol ar wahanol safleoedd. Bwriedir hysbysebu am Bennaeth a Dirprwy Bennaeth ar gyfer y gwasanaeth a byddant hwythau yn teithio i ymweld â'r Canolfannau fel bo'r angen. Gorffennodd drwy ddweud bod y sefyllfa ar hyn o bryd yn llawer gwell nag yr oedd 3 blynedd yn ôl a bod Gwynedd yn arwain y ffordd yn yr ymgyrch i gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg.

(Ymunodd y Cyng Nia Jeffreys â'r cyfarfod.)

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorwyr ynglyn â chanrannau mewnfudwyr; pryderon fod y Canolfannau ar agor am 4 diwrnod yn lle 5; fod y staff yn crwydro; adleoli'r Ganolfan o Langybi i Bwllheli nodwyd y pwyntiau canlynol :-

(Ymunodd y Cyng Aled Griffith â'r cyfarfod.)

- Fod y gwasanaeth am fod yr un fath ar draws y sir
- Fod pawb yn gallu cael mynediad
- Fod mwy o hyblygrwydd yn y system yn golygu gallu rhoi mwy o adnoddau yn ardaloedd Bangor a Tywyn
- Fod plant yn dysgu'n fwy effeithiol rhwng BI 5 a BI 9
- Na fyddai'r Pennaeth yn crwydro ond yn hytrach ar gael ble roedd yr angen mwyaf
- Fod symud yr uned i Cymerau yn symudiad cadarnhaol i Gymreigio'r ysgol honno
- Gan nad yw mynychu'r Canolfannau yn orfodol fod rhieni yn fwy parod i'w plant fynychu am 4 diwrnod ac yn dychwelyd at eu ffrindiau a'u cyfoedion yn eu mam ysgol ar y 5ed diwrnod a'u bod yn parhau gyda gwaith yr uned drwy gyfrwng Zoom neu Teams ar y diwrnod hwnnw.

Diolchodd y Cadeirydd i Garem Jackson, Pennaeth Addysg Gwynedd a'r Cynghorydd Cemlyn Williams am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod. Eglurodd fod gan y Cyngor Tref ddiddordeb yn lleol gan fod lleoliad y Ganolfan Iaith ar dir Ysgol Eifionydd. Bydd y Cyngor yn edrych ymlaen i glywed am lwyddiant y cynllun newydd.

19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref

Presennol :- Cynghorwyr :- Selwyn Griffiths, Ian Wyn Jones, Malcolm Humphreys, Gwilym Jones, Llywelyn Rhys (Cadeirydd) Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Richard Williams, Nia Jeffreys, Aled Griffith

Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr :- Jason Humphreys, Stuart Nashir-Hallard

293.3.22 Ymddiheuriadau. Cynghorwyr :- Dr Melfyn Edwards, Bethan Rees Jones

294.3.22 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dechreuodd y Cadeirydd drwy fynegi tristwch am y difrod a

gafwyd yn Gardencraft, Tremadog yn dilyn tân yno'n ddiweddar. Mae damwain fel hyn yn sialens fawr i fusnes bach ac roedd yn falch i ddeall fod Gardencraft wedi ail-agor eu drysau yn y dyddiau diwethaf. Roedd yn annog pawb i gefnogi busnesau bach lleol. Dywedodd fod Cynghorau wedi cael caniatâd i godi prisiwm Treth Cyngor o 300% ar ail gartrefi er mwyn arafu'r farchnad tai haf ac er mwyn hwyluso prynu tai gan bobl leol. Roedd yn credu fod y datblygiad pwysig yma wedi deillio o'r pwysau a roddwyd ar y Llywodraeth gan gynghorau tref a chymuned i newid polisi. Mae Cyngor Tref Porthmadog wedi trafod y broblem yma ers blynyddoedd ac wedi datgan eu barn ar y mater drwy lythyru cyson i weithredu ar ran yr ymgyrch. Mi fydd yn ddiddorol gweld faint o effaith gaiff y newid yma gan fod nifer cynyddol o dai haf yn cael eu cofrestru fel busnes i osgoi talu Treth Cyngor.

Roedd yn mynegi tristwch am y sefyllfa arswydus yn Wcraïn lle mae 2 filiwn o bobl eisoes wedi eu digartrefu a bellach yn ffoaduriaid. Roedd yn ei chael yn anodd i gredu fod y fath sefyllfa yn bosibl y dyddiau yma. Gorffennodd drwy gydymdeimlo â thrigolion yr Wcraïn a thrigolion Rwsia sydd ddim yn derbyn y wybodaeth gywir am y sefyllfa ac roedd yn gobeithio am heddwch yn yr ardal.

295.3.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Chwefror 8 2021

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Llawn – Cyfoeth Naturiol Cymru Mawrth 1 2022

Cafwyd cywiriad gan Cyng Richard Williams ar dudalen 65 : newid “ gwagio dŵr o'r Cob” i “ gwagio dŵr o'r Traeth Mawr”.

Cafwyd y cofnodion yn gywir wedi'r cywiriad yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

296.3.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Carol Hayes : mater 240.3.22 Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan

Materion i'w dwyn gerbron :-

297.3.22

Cyng Selwyn Griffiths :- adrodd yn ôl ar gyfarfod Cynhadledd gyswilt Rheilffordd Arfordir y Cambrian Chwefror 11 2022

Cafwyd adroddiad gan Cyng Selwyn Griffiths yn adrodd bod pont y Bermo bellach wedi ei ail-agor ond fod cynlluniau ar y gweill i'w chau unwaith yn rhagor ar gyfer gwaith atgyweirio cyn Nadolig 2022. Dywedodd fod y rheilffordd yn adnodd pwysig iawn i'r ardal ac y dylid manteisio ar y gwasanaeth yn hytrach na defnyddio ceir. Dywedodd fod trenau newydd ar gael yn y dyfodol a bod ymdrechion i gael 4 'carriage' yn lle 2 er mwyn gwneud gwell defnydd o'r gwasanaeth.

298.3.22 Cyng Jason Humphreys :- Cynnig trefnu fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

Penderfynwyd :- Yn absenoldeb Cyng Jason Humphreys gadawyd y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf ar 12.4.22.

299.3.22 Cyng Aled Griffith – cynnig llythyru Cyngor Gwynedd i holi a oes posibil rholi palmant ar Heol yr Wyddfa gyferbyn â Melin yr Wyddfa ac uwchraddio'r llwybr ger y rheilffordd i gysylltu llwybr Cob Crwn â Maes Parcio Llyn Bach er mwyn cael

cylchdaith ddiogel i gerddwyr.(Gweler y lluniau yn yr ohebiaeth)

Clywyd fel yr oedd peryglon amlwg wrth geisio cerdded ar hyd y ffordd yma oherwydd fod ceir wedi parcio ar un ochr o'r ffordd a'r diffyg pafin ar ochr Melin yr Wyddfa oherwydd fod y ffensys diogelwch yn gorfodi cerddwyr i gerdded yn y ffordd i wyneb traffig cyflym o gyfeiriad y Traeth.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig ac ychwanegu cais am lwybr ochr Llyn Bach o'r Depot yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

300.3.22 Cyng Nia Jeffreys – Cynnig fod y Cyngor Tref yn archebu Diffibriliwr ar gyfer Cerrig yr Afon, Porthmadog

Cododd Cyng Richard Williams fater o drefn ynglyn â phwy yn union sydd yn gyfrifol am lunio rhaglen cyfarfodydd y Cyngor Tref ac fe atgoffwyd pawb fod angen cynnig pendant i'w roi gerbron y Cadeirydd cyn gellir ei gynnwys ar y rhaglen. Cafwyd trafodaeth hir am oblygiadau cyfreithiol talu am ddifibriliwr ar dir Cymdeithas Tai. Clywyd fel yr oedd Cymdeithas Cae Pawb wedi archebu diffibriliwr i'w safle ac wedi ei ariannu eu hunain ac wedi derbyn caniatâd i'w osod ar wal allanol busnes cyfagos. Gan fod y Clerc wedi derbyn prisiau am ddifibriliwr ar gais Canolfan Morfa Bychan cynigiodd Cyng Selwyn Griffiths welliant sef :- Cynnig bod y Cyngor Tref yn archebu Diffibriliwr ar gyfer Cerrig yr Afon, Porthmadog a Chanolfan Morfa Bychan.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

301.3.22 Cyng Ian Wyn Jones :- Cynnig bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu i'r Adran Gorfodaeth Cynllunio i holi sut mae nhw am weithredu ar y grisiau i'r lan y môr sydd wedi eu hadeiladu ar dir Tŷ Clyd Heol Merswy, Borth Y Gest, Rhif Cais.:

C21/1108/44/DT (wedi ebostio 19.11.21) oedd ddim ar y cais gwreiddiol o "amnewid cladin pren, ail doi gyda tô fflat, adeiladu estyniad ac amnewid wal ffin".

Roedd y Cyng Ian Jones wedi darparu map o'r safle a llun o'r grisiau i lawr i'r llwybr ar gyfer y Cynghorwyr a gwelwyd yn glir fod perchennog newydd Tŷ Clyd wedi meddianu tir er mwyn dyblu maint y safle o'i gymharu â'r safle gwreiddiol. Mae'r perchennog hefyd wedi adeiladu grisiau newydd o'r safle i lawr i Lwybr yr Arfordir. Mae hyn yn gwbwl groes i'r cais cynllunio gwreiddiol a teimlwyd fod y perchennog wedi camarwain yr awdurdodau cynllunio. Roedd y cais wedi ei wrthod ar 4.2.22 ond roedd y gwaith wedi ei gwblhau cyn Nadolig 2021 ymhell cyn derbyn unrhyw ddyfarniad cynllunio.

Penderfynwyd :- ysgrifennu yn ôl y cynnig i Aneurin Môn Parry (Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio) gyda chopi i Barry Davies a Llyr B Jones yn ôl cynnig Cyng Ian Jones , Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

302.3.22 Cyng Aled Griffith :- Coed am ddim gan Coed Cymru - Cynnig holi Cyngor Gwynedd beth yw eu cynlluniau ar gyfer y Nyrseri, Tremadog; oes modd tacluso a chreu safleoedd i drigolion Tremadog blannu eu coed yno; yr un modd i drigolion mewn safleoedd eraill yn ardal Porthmadog.

Eglurwyd fel y mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Fy Nghoeden, Ein Coedwig gyda'r bwriad o blannu 300,000 o goed cyn diwedd Mawrth 2023. Clywyd fel y mae'r Nyrseri'n adnodd gwerthfawr iawn i blant a thrigolion Porthmadog gan iddo gynnig lle chwarae gwych a naturiol i blant yr ardal. Oherwydd ei fod bellach yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol mae ysgolion lleol hefyd yn manteisio ar y Nyrseri i gynnal gwersi yn yr awyr agored gan ddarparu profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Teimlwyd fod y Nyrseri neu safle Model Dairy yn ddau le addas i blannu unrhyw goed am ddim a ddarperir gan y cynllun hwn. Nodwyd nad yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw ymateb i lythyr 17.11.21 ynglyn â

pherchnogaeth tir Model Dairy er ei ail yrru ar 1.2.22.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

303.3.22 Cymeradwyo'r Polisi Hyfforddiant (copi ynghlwm)

Penderfynwyd :- mabwysiadu'r Polisi yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

Cymeradwyo argymhellion y Gweithgor Datblygu:-

304.3.22 Cyng Selwyn Griffiths – Cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn caniatâd i osod 4 twb blodau newydd ym Mhorthmadog a 2 dwb yn Nhremadog.

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

305.3.22 Cyng Selwyn Griffiths – Cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ddychwelyd y byrddau picnic i'w safle ar ochr Llyn Bach

Penderfynwyd :- gweithredu ar gynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Nia Jeffreys yn eilio.

306.3.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Ebrill 12 2022 = Ebrill 2 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)

- **Cyng Jason Humphreys** :- Cynnig trefnu fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

307.3.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

Gohebiaeth :

308.3.22 LIZ WATKIN-DOLBENMAEN, Cwyno am ddarpariaeth Hwb Eifionydd

Cytunwyd nad oedd system newydd Hwb Eifionydd yn effeithiol a chlywyd llawer o gwynion gan y Cynghorwyr ynglyn â'r gwasanaeth megis :- pobl yn methu gweld meddyg; dim fferyllfa ym meddygfa Cricieth; pryderon am wasanaeth y fferyllwyr; prinder staff yn y fferyllfeydd; dim cymorth i ddarparu'r gwasanaeth; pobl yn ciwio y tu allan i'r fferyllfeydd oherwydd fod y gwasanaeth mor araf.

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i ddangos cefnogaeth i Gyngor Dolbenmaen ac ysgrifennu at GIG i gwyno am y gwasanaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Richard Williams yn eilio.

309.3.22 AMANDA MURRAY C.G., Toiledau Porthmadog

Yn dilyn trafodaeth ynglyn â chefnidir rhesymau'r Cyngor Tref i wrthod cyfrannu tuag at gostau'r toiledau

penderfynwyd :- ymateb trwy ysgrifennu'n ôl i nodi unwaith eto rhesymau'r Cyngor yn erbyn cyfrannu sef :-

1. fod Cyngor Gwynedd yn derbyn elw blynyddol o £13k drwy incwm toiledau cyhoeddus
2. fod pobl leol yn cyfrannu at y gwasanaeth trwy dalu eu trethi

3. fod 3 toiled cyhoeddus wedi bodoli ym Mhorthmadog yn y gorffennol a bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud arbedion sylweddol trwy gau 2 ohonynt yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Malcolm Humphreys yn eilio.
(Gadawodd Cyng Carol Hayes y cyfarfod)

310.3.22 Y GANOLFAN, Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 14.7.21- Ymateb i ail yrru 74.7.21

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Wyn Jones yn eilio.

(Dychwelodd Cyng Carol Hayes i'r cyfarfod)

311.3.22 DAFYDD EINION JONES C.G., Ardal Ni 2035

DAFYDD EINION JONES C.G., Ymatebion Cynghorau Lleol i Ardal Ni 2035 (7 tudalen - copi electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

312.3.22 DŴR CYMRU, Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Drafft

DŴR CYMRU, Dogfen Cyn-Ymgynghori Dŵr Cymru (copi electronig yn unig – 13 tudalen)

Penderfynwyd :- gofyn i'r Cyng Alwyn Gruffydd lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Tref ac roedd yntau yn hapus i gytuno er mwyn cynrychioli barn y Cyngor Tref.

313.3.22 DR CATRIN JONES, Adroddiad Un Llais Cymru ar gyfarfodydd aml-leoliad UN LLAIS CYMRU, Copi o'r adroddiad (13 tudalen copi electronig yn unig)

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

314.3.22 MICHAEL STRAIN, Apêl Eisteddfod Genedlaethol Boduan

Penderfynwyd :- Rhoi cyfraniad ariannol o £5,000 y flwyddyn gan ddechrau gyda'r taliad cyntaf o'r flwyddyn ariannol bresennol, y nesaf o flwyddyn ariannol 2022-23 a'r olaf o flwyddyn ariannol 2023-24 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

315.3.22 CYNG ALED GRIFFITH, Lluniau Heol yr Wyddfa

Wedi trafod y mater yn 299.3.22.

316.3.22 BLAKEMORE, Ymateb i 105.9.21 Spar Porthmadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu'n ôl i dderbyn eu cynnig i gadw at yr amser dadlwytho o rhwng 06.30 a 08.30 a monitro'r sefyllfa wedyn yn ôl cynnig Cyng Ian Wyn Jones, Cyng Richard Williams yn eilio.

317.3.22 ADRAN CYNLLUNIO C.G., Ymateb i 264.2.22 Siloam Cottage

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

318.3.22 CALON HEART, Ymateb i 284.2.22 Pris diffibriliwr i Morfa Bychan

Wedi trafod y mater yn gynharach yn 230.3.22

319.3.22 ROCK ENGINEERING , Ymateb i 281.2.22 Creigiau Tremadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a gyrru'n ôl i ddiolch am yr ymateb a'r Cyng Alwyn Gruffydd i gael gair efo Darren Moore a Richard Wyn Owen yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

320.3.22 MARTIN PRITCHARD, Llythyr diolch Neuadd Goffa Tremadog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

321.3.22 DAFYDD WYN WILLIAMS C.G., Ymateb i 260.2.22 Llwybr y Cyt
Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

322.3.22 UN LLAIS CYMRU, Ebst Adroddiad Blynyddol Cymru ar Gynabyddiaeth ariannol 2022-2023

Copi o'r Adroddiad (88 tudalen - copi electronig yn unig) Adran 13 yn berthnasol i gynghorau tref

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

323.3.22 ROBERT LEWIS, Llythyr diolch Clwb Chwaraeon Madog

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

324.3.22 LLUN, Grisiau Borth y Gest

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

325.3.22 SIAN EIRIAN, Llythyr diolch Eisteddfod yr Urdd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

326.3.22 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Chwefror 2022	£	00.29
------	-------------------------	---	-------

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Malcolm Humphreys yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Chwefror 2022	£ 47.70
2	Marian Roberts	Costau Teithio Chwefror 2022	£ 5.88
3	Marian Roberts	Cyflog Clerc Chwefror 2022	£ 639.17
4	Marian Roberts	Inc du i'r printer	£ 15.25
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Chwefror 2022	£ 160.07
6	Y Ganolfan	Cyfarfod mis Chwefror	£ 50.00
7	Gwasanaeth Gwaith Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd	Gwaith cynnal/gosod a chlirio coed Nadolig ac atgyweirio'r goeden Nadolig	£ 2,256.00
8	Gwasanaeth Gwaith Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd	Gwaith cynnal tiroedd a llwybrau 2021-2022	£7,317.42
9	Richard Williams	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
10	Gwilym Jones	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
11	Aled Griffith	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
12	Alwyn Gruffydd	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
13	Gareth Griffiths	Drivers ar gyfer coeden Nadolig Morfa Bychan	£ 199.20
14	Arena Group	Llungopïo	£ 34.67

15	Yr Wylan	Hysbyseb tendr torri gwair rhifyn Chwefror	£ 16.00
16	Harrison Flagpoles	6 baner trofan Bodawen	£ 238.74
17	Dr Melfyn Edwards	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
18	Stuart Nashir-Hallard	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
19	Jason Humphreys	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
20	Bethan Rees Jones	Lwfans Cynghorydd 2021-22	£ 120.00
21	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	8 x £30 Treth Incwm Lwfansau Cynghorydd	£ 240.00
22	Un Llais Cymru	Tâl aelodaeth 2022-2023	£ 839.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

327.3.22 Ceisiadau Cynllunio

Dim cais wedi dod i law erbyn cau'r rhaglen ar 26.2.22

Marian Roberts
13.3.2022